## PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER
## 20 RHAGFYR 2017

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Mercher, 20 Rhagfyr 2017.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: David Cox, Jean Davies, Adele Davies-Cooke, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, Ted Palmer, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Rob Davies (ar ran Sian Braun), Dave Hughes (ar ran Ron Davies) a Rita Johnson (ar ran Ray Hughes)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd George Hardcastle

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Dai; Prif Swyddog (Cymuned a Menter); a Rheolwr Gwasanaeth, Rhaglenni Tai

Rheolwr Asedau Tai ac Uwch Swyddog Tai Gwarchod (ar gyfer cofnod rhif 38)

Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr (ar gyfer cofnod rhif 39)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

### 35. SESIWN WYBODAETH

Cyn dechrau'r cyfarfod, rhoddwyd cyflwyniad i Aelodau'r Pwyllgor ar y Cyfrif Refeniw Tai gan Steve Agger a Sian Jones.

### 36. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

### 37. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 16 Hydref a 15 Tachwedd 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r ddau set o gofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

### 38. ADOLYGIAD LLETY GWARCHOD

Cyflwynodd y Rheolwr Asedau Tai adroddiad o ganlyniadau'r adolygiad a gynhaliwyd o letyau gwarchod ar draws y sir, a oedd yn cynnwys cyfanswm o 2,637

eiddo.  Cynhaliwyd yr adolygiad gan fod canfyddiad bod gan y Cyngor her o ran gosod llety gwarchod a bod cyfraddau gwacter yn bryder.

Ymhlith y canfyddiadau, nodwyd nad oedd colli rhent o eiddo gwag yn fater a'i fod yn fras yn unol â thai anghenion cyffredinol.  Roedd llawer o gynlluniau tai gwarchod mewn galw uchel, a'r prif resymau dros ddod â thenantiaethau i ben oedd oherwydd marwolaeth neu denantiaid yn symud i gyfleusterau gofal preswyl.  Roedd fflatiau un ystafell wely yn llai poblogaidd a gallai rhai cynlluniau mewn ardaloedd gwledig fod yn anoddach eu gosod.  Yn olaf, roedd nifer fach o gynlluniau lle gallai mynediad fod yn her i'r rhai sydd â materion symudedd.  Gellid rhoi sylw i'r rhain drwy gynlluniau buddsoddi mewn cynlluniau.

Ar achlysuron, roedd tai gwarchod yn cael eu gosod i ymgeiswyr gydag anghenion cefnogaeth ac anableddau corfforol a oedd dan oedran dynodi tai gwarchod oherwydd mai hwn oedd y llety mwyaf priodol a oedd ar gael i ddiwallu eu hanghenion.  Byddai newid disgrifydd tai gwarchod i lety 'gwarchod a gyda chefnogaeth' yn adlewyrchu'r arfer hwn yn iawn.

Siaradodd y Cynghorydd Shotton o blaid yr argymhellion a chanmolodd y gwaith ailwampio a wnaethpwyd yng nghynllun Glan-y-Morfa yng Nghei Connah.

Dywedodd y Prif Swyddog (Cymunedau a Menter) fod yr adroddiad yn dangos fod llawer o alw am letyau yn ogystal ag opsiynau ar gyfer gwella, er enghraifft, i fynd i'r afael â phroblemau hygyrchedd a chynyddu nifer y rheiny sy'n dewis fflatiau un ystafell ac eiddo mewn ardaloedd anghysbell.

Siaradodd y Cynghorydd Attridge am opsiynau i annog tenantiaethau mewn fflatiau un ystafell a'r posibilrwydd o ail-ddosbarthu rhai lletyau er mwyn ateb y galw gan grwpiau eraill o gwsmeriaid.

Gofynnodd y Cynghorydd Johnson a oedd yn bosibl i breswylwyr hŷn sy'n aros am ystafelloedd gwlyb i gael mynediad at gyfleusterau ymolchi eraill.  Dywedodd y Prif Swyddog y dylid cyfeirio achosion at swyddogion a'i fod yn ymwybodol o drefniadau gyda rhai cynlluniau gofal ychwanegol.  Dywedodd fod tenantiaid y Cyngor yn gallu gwneud cais am asesiad Iechyd Galwedigaethol i weld a ydynt yn gymwys am Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad, cyfeiriodd y Cynghorydd Dolphin at y diffyg cyfleusterau lleol i'r rheiny sy'n byw mewn llety gwarchod mewn ardaloedd mwy anghysbell.  Pwysleisiodd hefyd bod angen i gartrefi sydd wedi cael eu haddasu i safon uchel ar gyfer tenantiaid anabl gael eu cadw at y diben hwnnw.  O ran problemau sy'n codi oherwydd tenantiaid trafferthus, siaradodd y Cynghorydd Attridge am y dull gorau o fynd i'r afael â hyn a'r nod o geisio cael y gymysgedd gywir o unigolion sydd â gwahanol anghenion o fewn cynlluniau unigol.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Shotton, roedd y Prif Swyddog yn ymwybodol o gynlluniau gan Groundwork i sefydlu'r potensial ar gyfer gwasanaeth siopa symudol i gymunedau anghysbell a byddai'n ceisio cael diweddariad.

Siaradodd y Cynghorydd Cox am ymgysylltiad positif gan aelodau etholedig i helpu preswylwyr i ymdrin â phroblemau megis unigrwydd. Dywedodd y Prif Swyddog fod cyfraniad wardeiniaid yn bwysig er mwyn annog tenantiaid i gynnwys eu hunain yn eu cymunedau lleol.

Holodd y Cynghorydd Hughes ynglŷn â chanran y lletyau a wrthodwyd ar sail diffyg gwasanaethau trafnidiaeth leol. Dywedodd yr Uwch Swyddog Tai Gwarchod mai'r prif reswm dros wrthod oedd y math o lety. Awgrymodd y Cynghorydd Attridge fod y Pwyllgor yn derbyn adborth ar gamau gweithredu sy'n codi o'r adolygiad ar ôl cyfnod o 12 mis. Cytunodd y Prif Swyddog y byddai hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r rhestr aros a rhesymau dros wrthod.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi canlyniadau'r adolygiad a'r camau nesaf, ac yn cefnogi'r egwyddor o alw llety gwarchod yn 'lety gwarchod a llety â chymorth' er mwyn adlewyrchu'r grŵp cwsmeriaid y maent yn eu gwasanaethu.

## 39. DARPARIAETH AR GYFER SAFLEOEDD TRAMWY I SIPSIWN A THEITHWYR A CHYTUNDEB RHEOLI GLAN YR AFON

Cyflwynodd y Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr adroddiad i geisio cefnogaeth ar gyfer cynnal arfarniad opsiynau â chostau er mwyn datblygu safle tramwy 6 llain yn Sir y Fflint, a diweddaru'r cytundeb rheoli ar gyfer unig safle parhaol y Cyngor ar hyn o bryd sef Parc Glan yr Afon.

Tynnodd yr adroddiad sylw at ddyletswyddau statudol sy'n berthnasol i gynghorau o ran sipsiwn a theithwyr, a manteision darparu safle tramwy i'w ddefnyddio dros dro gan sipsiwn a theithwyr sy'n teithio drwy'r ardal.

Roedd angen adnewyddu'r cytundeb rheoli ar gyfer y safle parhaol yng Nglan yr Afon er mwyn cyflawni'r newidiadau yn y gofynion cyfreithiol ac yn dilyn hynny gellid gwneud cais am gyllid grant gan Lywodraeth Cymru i ailwampio'r safle.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, esboniodd y Swyddog nad oedd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw wersylloedd diawdurdod ar dir preifat ond eu bod yn cofnodi achosion a gyflwynir i'w sylw.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dolphin at enghraifft benodol yn ei ward hi lle mae gwersyll diawdurdod hirdymor yn bodoli. Gofynnodd y Cynghorydd Attridge i unrhyw faterion penodol gael eu codi â swyddogion y tu allan i'r cyfarfod er mwyn trin gwybodaeth yn gyfrinachol. Er ei fod yn deall y pryderon, esboniodd fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn y broses i ymdrin â materion yn fwy effeithlon. Cafodd y cyfarfod ei atgoffa gan y Prif Swyddog am gyfrifoldeb y Cyngor i asesu amgylchiadau pob achos cyn dod i benderfyniad priodol.

Dywedodd y Cynghorydd Attridge y dylid anfon pryderon am drefniadau diogelwch yn Noc Maes Glas at gydweithwyr yn y Gwasanaethau Cefn Gwlad. Yn ystod trafodaeth am leoliad y safle tramwy arfaethedig, esboniwyd fod opsiynau tir sy'n perthyn i'r Cyngor yn cael eu harchwilio i ddechrau cyn edrych ar argaeledd tir preifat.

Anogwyd aelodau i anfon awgrymiadau o leoliadau at swyddogion a chyflwynodd y Cynghorydd Reece wybodaeth ar ran tirfeddiannwr preifat.

Darparodd y swyddog eglurhad i'r Cynghorydd Shotton ynghylch cyllid grant a dywedodd fod hyn yn amodol ar gael caniatâd cynllunio ar gyfer y tir a nodwyd.

Holodd y Cynghorydd Johnson ynglŷn â'r dull o godi tâl am y safle tramwy. Esboniwyd y byddai gwersi'n cael eu dysgu o enghreifftiau tebyg ar draws y DU, er mai hwn fyddai'r safle tramwy cyntaf yng Nghymru.

Tynnodd y Cynghorydd Wisinger sylw at y ffaith nad oedd unrhyw broblemau mawr wedi bod, er gwaethaf y pryderon dechreuol ynghylch Glan yr Afon. Mewn ymateb i ymholiadau, dywedodd y Cynghorydd Attridge nad oedd unrhyw gynlluniau i ymestyn y safle.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi:

(a) Cynnal arfarniad o opsiynau â chostau ar gyfer datblygu safle tramwy 6 llain yn Sir y Fflint;

(b) Adolygu a gweithredu trefniadau rheoli newydd yng Nglan yr Afon; a

(c) Gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid cyfalaf yn haf 2018 er mwyn ailwampio safle'r Awdurdod Lleol yng Nglan yr Afon.

## 40. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Wrth gyflwyno'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol i'w hystyried, dywedodd yr Hwylusydd y byddai eitem ychwanegol yn cael ei chyflwyno yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2018 ar ganlyniadau'r adroddiad Archwilio ar gyfer rheoli'r gofrestr dai a dyraniadau. Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau pellach i'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Diwygio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 41. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg ac un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.10pm)

……………………………
**Cadeirydd**